**TAG UWCH**

1570N50-1A

**I'W ROI I YMGEISWYR O 1 MAWRTH 2023 YMLAEN**

# IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

## Uned 5 – Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch ymddygiad oedolion

## Astudiaeth Achos i'w Rhyddhau Ymlaen Llaw

### CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

**Ni allwch** fynd â'r deunydd hwn nac unrhyw ddeunydd ymchwil cysylltiedig i mewn i'r arholiad gyda chi.

### GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae'r wybodaeth dros y dudalen wedi'i darparu i'ch helpu chi i baratoi ar gyfer Adran A yn yr arholiad 'Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch ymddygiad oedolion'.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**Mae'r cyd-destun ar gyfer Adran A yr arholiad Uned 5 yn Haf 2023 wedi'i amlinellu isod.**

Mae Gloria yn oedolyn hŷn (*older adult*) o gefndir Affro-Caribïaidd. Daeth Gloria i Gaerdydd o Jamaica pan oedd hi'n blentyn. Wnaeth hi erioed briodi, a chyn ymddeol roedd hi'n gweithio fel nyrs gymunedol. Mae ei nith (*niece*), Rita, wedi bod yn darparu gofal a chymorth ychwanegol iddi.

Mae Rita wedi cael trafferth cydbwyso (*balance*) gofalu am ei theulu ei hun a helpu a chefnogi Gloria.

Ar ôl diagnosis diweddar o ddementia, mae Gloria wedi penderfynu symud i gartref gofal preswyl lleol.

Wrth baratoi ar gyfer Adran A yn y papur arholiad Uned 5, rydyn ni'n eich cynghori i ymchwilio i'r canlynol:

- ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion
- pwysigrwydd ac effeithiau gwydnwch (*resilience*) wrth ddelio â lleoliadau a sefyllfaoedd gofal
- damcaniaethau allweddol sy'n ymwneud â deall a rheoli ymddygiadau penodol
- dulliau allweddol mewn ymarfer sy'n ymwneud â datblygiad ac ymddygiad oedolion.